

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	15,077	15,613	536	0	536	(607)
Gofal Cartref	7,100	6,925	(175)	0	(175)	(869)
Eraill	(249)	965	1,214	0	1,214	1,132
	21,928	23,503	1,575	0	1,575	(344)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,374	2,352	(22)	0	(22)	(122)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	19,568	19,370	(198)	0	(198)	444
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,554	3,424	(130)	0	(130)	(147)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,095	3,063	(32)	0	(32)	(48)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	50,519	51,712	1,193	0	1,193	(217)
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	105	409	304	0	304	(67)
Gofal Dydd	15	255	240	0	240	339
Gofal Cymunedol	69	655	586	0	586	397
Eraill	22	65	43	0	43	(43)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	211	1,384	1,173	0	1,173	626

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,040	3,422	382	0	382	11
Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion			860		860	
Defnydd o gronfa benodol						(420)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,040	3,422	1,242	0	1,242	(409)
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	53,770	56,518	3,608	0	3,608	0
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(1,722)	(1,722)	
<u>Cyfanswm Addasedig Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>					1,886	

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - pwysau ar y ddarpariaeth gofal preswyl a nyrsio, gyda'r niferoedd yn sylweddol uwch na'r lefel ddwy flynedd yn ôl. Effaith Covid19 yn cyfrannu at leihad yn y galw am becynnau gofal cartref. Methiant i wireddu gwerth £1,144k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £363k ar Lety Cefnogol, gyda chostau cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - tanwariant ar breswyl a nyrsio ac effaith Covid19 wedi cyfrannu at wariant ychwanegol gan y gwasanath ond hefyd at leihad yn y galw am gynlluniau cefnogol eleni.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - llai o bwysau ar y ddarpariaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â throsiant staff.

Gwasanaethau Darparu - costau ychwanegol cysylltiedig â Covid19 yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir ar Ofal Preswyl. Staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Dydd a Gofal Cymunedol, ac yn ychwanegol i hyn, lleihad mewn incwm Gofal Cymunedol sydd yn rhannol oherwydd Covid19.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - derbyniad grant ac incwm a chwtogi ar wariant yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £563k o gynlluniau arbedion.

Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni gyda £2.2 miliwn wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst a £1.722 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol perthnasol hyd at ddiwedd Gorffennaf. Heb ystyried ardrawiad Covid19, rhagwelir gorwariant o £1.886 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £1.751 miliwn yn cyfrannu at y sefyllfa.

Eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal oedolion.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	590	584	(6)	0	(6)	(18)
Gweithredol	2,101	2,170	69	0	69	153
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	2,965	4,556	1,591	0	1,591	1,624
Maethu Drwy Asiant	1,179	1,626	447	0	447	501
Maethu Mewnol	2,161	2,535	374	0	374	588
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,825	1,784	(41)	0	(41)	113
	8,130	10,501	2,371	0	2,371	2,826
Ôl-16	1,054	1,468	414	0	414	260
Arbenigol/Derwen	1,819	2,088	269	0	269	357
Cyfiawnder Ieuenctid	253	215	(38)	0	(38)	(78)
Blynyddoedd Cynnar	158	106	(52)	0	(52)	(74)
Ieuenctid	898	734	(164)	0	(164)	(136)
Eraill	1,721	1,705	(16)	0	(16)	69
Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20						(3,259)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	16,724	19,571	2,847	0	2,847	100
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(68)	(68)	
Cyfanswm Addasedig Plant a Theuluoedd					2,779	

Plant a Theuluoedd

Gweithredol - y gorwariant ar gostau staff gyda £50k ohono o ganlyniad i gyflogi gweithwyr ychwanegol dros dro i ymateb i'r argyfwng Covid19.

Lleoliadau - er fod £1.8m o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, mae'r gorwariant yn parhau gyda rhagolygon o orwariant o £2.4m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O fewn y pennawd ceir gwerth £688k o arbedion sydd eto i'w gwireddu ac sydd bellach yn edrych yn anhebygol o gael eu gwireddu.

Y galw am yr ystod o wasanaethau yn dwysáu ymhellach, rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 5 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 7 achos a ddechreuodd yn ystod 2019/20, gyda'r nifer lleoliadau cyfartalog wedi cynyddu i 21.6 o 18.1 ar gyfer 2019/20. Yn maethu drwy asiant, 3 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 12 achos a gychwynwyd yn 2019/20. Gorwariant yn deillio o effaith y cynnydd yn niferoedd lleoliadau maethu mewnol y llynedd (166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.

Ôl-16 - costau cefnogaeth cychwynol uchel eleni yn deillio o 3 achos o'r newydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 2 achos y llynedd.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau teithio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid19.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

Ieuenctid – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth.

O ystyried tueddiad gorwariant cynyddol yr adran, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

Hyd at ddiwedd Awst mae'r Adran wedi wynebu £68k o gostau ychwanegol yn deillio o'r Covid19 sydd wedi eu cynnwys yn y ffigyrau uchod.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	80,455	80,455	0	0	0	0
Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd (Datganoledig)	0	230	230	0	230	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(541)	(760)	(219)	0	(219)	(406)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol			0			
Cludiant	4,906	4,457	(449)	0	(449)	158
Gwasanaeth Atodol	500	1,034	534	0	534	356
Eraill	2,912	2,771	(141)	0	(141)	(167)
	8,318	8,262	(56)	0	(56)	347
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,276	2,216	(60)	0	(60)	(49)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,537	4,561	24	0	24	12
Cyfanswm Addysg	95,045	94,964	(81)	0	(81)	(96)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(230)	(230)	
Cyfanswm Addasedig Addysg					(311)	

Addysg

Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd - colled incwm prydau ysgol yn deillio o'r argyfwng Covid19, gyda cais wedi ei wneud i gael ein digolledu gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniad grantiau, trosiant staff, cwctogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau dros y cyfnod clo yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

Cludiant - yn groes i'r tueddiad gorwariant arferol, rhagwelir tanwariant o (£449k) ar gludiant eleni yn dilyn i'r ysgolion fod ar gau am gyfnod yn nhymor yr haf gyda thanwariant o (£392k) ar fysis ysgol a (£134k) ar gludiant tacsis a threnau, ond sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg o £77k ar werthiant tocynnau Cludiant Ôl-16 dros y cyfnod clo.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - colled incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brechwast yn deillio o'r argyfwng, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio cinio am ddim. Ymhellach i hyn, gwariant ychwanegol ar lanhau ysgolion oherwydd gofynion cysylltiedig â Covid19.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol yn arbennig felly yn ystod y cyfnod clo.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	356	350	(6)	0	(6)	3
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	367	367	0	0	0	10
Morwrol a Pharciau Gwledig	16	663	647	0	647	9
Cytundebau Hamdden	1,502	1,468	(34)	0	(34)	79
Rhaglenni Chwaraeon	59	33	(26)	0	(26)	(60)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	(83)	(83)	0	0	0	(26)
Marchnata a Digwyddiadau	260	265	5	0	5	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,618	1,531	(87)	0	(87)	(7)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	858	987	129	0	129	59
Cyfanswm Economi a Chymuned	4,953	5,581	628	0	628	67
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(475)	(475)	
Cyfanswm Addasedig Economi a Chymuned					153	

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - diffyg incwm yn sgil yr argyfwng Covid19 wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd yn cyfrannu at orwariant o £547k Morwrol a £100k ar Barciau Gwledig. Colled incwm amlycaf i'w weld yn Hafan, Pwllheli gyda rhagolygon o ddiffyg o £433k. Cyfuniad o gynnydd nodedig yn niferoedd ymwelwyr i draethau yn dilyn y cyfnod clo a thywydd da sydd yn ymestyn y tymor ym Medi yn golygu fod y rhagolygon diffyg incwm yn is na'r disgwyl.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, gyda'r canolfannau wedi bod ar gau am ran o'r flwyddyn o ganlyniad i Covid19, rhagwelir leihad un-tro ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden eleni.

Llyfrgelloedd Gwynedd - nifer o swyddi gwag a lleihad mewn gwariant tra bu llyfrgelloedd ar gau dros y cyfnod clo.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - problemau yn parhau yn Storiell gyda rhagolygon o £86k o ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Y gwaith o adnewyddu Neuadd Dwyfor wedi cychwyn ac felly dim modd cynhyrchu incwm eleni, tra fod effaith Covid19 wedi arwain at golled incwm gan Amgueddfa Lloyd George. Cwtogi gwariant wedi arwain at danwariant gan y Celfyddydau.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,941	9,882	(59)	0	(59)	(54)
Gwasanaethau Peirianeg	383	447	64	0	64	(12)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,022	11,688	666	0	666	851
Eraill	3,877	4,531	654	0	654	(238)
Addasiad Cau Cyrifon 2019/20						(447)
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,223	26,548	1,325	0	1,325	100
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(488)	(488)	
<u>Cyfanswm Addasedig Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>					837	

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - cyfyngiadau Covid19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn yn golygu y bydd cyllideb gweithiau ffyrdd yn tanwario eleni, swyddi gwag a thanwariant ar benawdau amrywiol hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant a ragwelir.

Gwasanaethau Peirianeg - oediad mewn gwireddu cynllun arbedion, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir ond y gorwariant yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd i Fawrth 2021, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch eleni.

Y gwasanaeth wedi wynebu costau ychwanegol a cholledion incwm yn deillio o'r Covid19 a gwelwyd hefyd leihad sylweddol yn y prisiau a dderbynnir am werthiant deunyddiau ailgylchu, sydd wedi haneru ers lefelau y llynedd. Y tueddiad o fethiant i wireddu arbedion hefyd yn parhau.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - sgil effeithiau Covid19 wedi arwain at golledion incwm gan gynnwys yn y maes gwastraff masnachol wrth i fusnesau fod ar gau dros y cyfnod clo. Gofynion ychwanegol a newidadau i drefniadau gweithio er mwyn cydymffurfio efo rheolau Covid19 ac ymbellhau cymdeithasol yn gost ychwanegol. Methiant i wireddu arbedion hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	419	331	(88)	0	(88)	(58)
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	415	563	148	0	148	34
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth			0			
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	711	565	(146)	0	(146)	(236)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,786)	(798)	988	0	988	116
Cludiant Integredig	1,685	1,978	293	0	293	(29)
	610	1,745	1,135	0	1,135	(149)
Cefn Gwlad a Mynediad	654	641	(13)	0	(13)	33
Gwarchod y Cyhoedd	1,604	1,602	(2)	0	(2)	(15)
Addasiad Cau Cyrifon 2019/20						70
<u>Cyfanswm Amgylchedd</u>	3,702	4,882	1,180	0	1,180	(85)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(876)	(876)	
<u>Cyfanswm Addasedig Amgylchedd</u>					304	

Amgylchedd

Rheolaeth - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - cyfuniad o swyddi gweigion, tanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar weithiau yn y maes Cynllunio Ymlaen ond diffyg incwm ffioedd gwaith stryd.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - effaith sylweddol cyfyngiadau Covid19 yn gyfrifol am £886k o ddiffyg incwm parcio yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol unig, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu'r Cyngor am y golled yma. Rhagolygon o ddiffygion incwm pellach ar gyfer gweddill y flwyddyn ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol.

Cludiant Integredig - gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, er fod yr adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus gyda'r Brifysgol eisoes wedi ei gomisiynu i adolygu'r ddarpariaeth bu oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid19.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(705)	(639)	66	0	66	29
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	2	2	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	596	596	0	0	0	(3)
Gwasanaeth Adeiladu	(15)	21	36	0	36	(52)
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	(122)	(20)	102	0	102	(26)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				0	0	
Cyfanswm Addasedig Ymgynghoriaeth					102	

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - incwm misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol wedi ei lesteirio oherwydd effaith Covid19, gyda chais i ddigolledu'r golled incwm net o £140k wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru, sydd eto i'w gymeradwyo. Y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Adeiladu - diffyg incwm yn cael ei leihau gan wariant is ar wasanaethau a chyflenwadau.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	381	401	20	0	20	74
Gwasanaethau Tai			0			
Digartrefedd	1,161	1,851	690	0	690	251
Tai Sector Breifat	417	387	(30)	0	(30)	(87)
Eraill	355	304	(51)	0	(51)	(42)
	1,933	2,542	609	0	609	122
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	3,158	3,146	(12)	0	(12)	(89)
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	2	(21)	(23)	0	(23)	(24)
	3,160	3,125	(35)	0	(35)	(113)
Cyfanswm Tai ac Eiddo	5,474	6,068	594	0	594	83
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>				(237)	(237)	
<u>Cyfanswm Addasedig Tai ac Eiddo</u>					357	

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - Cynllun arbedion sydd eto i'w wireddu sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant ond ei fod yn cael ei leihau gan danwariant ar benawdau eraill.

Gwasanaethau Tai - yn Digartrefedd pwysau sylweddol ar y gyllideb Llety Dros Dro, gyda chyfran helaeth ohono yn deillio o'r argyfwng i symud y digartref oddi ar y stryd, disgwylir y bydd modd i'r Cyngor gael eu digolledu am y gwariant ychwanegol yma gan Lywodraeth Cymru. Tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn Tai Sector Breifat a thanwariant yn y maes Sipsiwn a Theithwyr dan Eraill, sydd yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir ar gyfer y Gwasanaeth Tai.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,764	1,733	(31)	0	(31)	(50)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,649	6,564	(85)	0	(85)	(70)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,286	7,358	72	0	72	(100)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,699	15,655	(44)	0	(44)	(220)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>						
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)				0	0	
Cefnogaeth Gorfforaethol				(21)	(21)	
Cyfanswm Addasedig Adrannau Canolog					(65)	

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£31k), gyda chyfran o'r tanwariant sydd yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Effaith yr argyfwng wedi arwain at leihad yn yr incwm a dderbynnir gan Chyfreithiol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag, secondiadau a derbyniad incwm mewn nifer o feysydd. Gwelwyd costau ychwanegol gan yr adran yn deillio o'r argyfwng ar yr ochr gweinyddu grantiau busnes ac hefyd yn y maes technoleg gwybodaeth.

Cefnogaeth Gorfforaethol - cyfyngiadau Covid19 wedi arwain at golledion incwm sydd yn gyfrifol am y rhagolygon gorwariant o £72k, gan gynnwys colled incwm o £80k yn y maes cofrestru priodasau a £7k cyfweliadau am basportau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Effaith Covid19 hefyd wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy gyda diffyg o £135k yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar swyddi ac ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran sydd yn cynorthwyo'r sefyllfa.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2020/21	Amcan Sefyllfa 2020/21	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(441)	441	0	(495)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(297)	297	0	(183)
Costau Cyfalaf	*	*	(250)	250	0	0
Derbyniad Llog			300		300	0
Darpariaeth Gwireddu arbedion Corfforaethol	*	*	(1,644)		(1,644)	0
Eraill gan gynnwys Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(689)	389	(300)	(334)
Addasiad Cau Cyrifon 2019/20						1,012
<u>Cyfanswm Corfforaethol</u>	*	*	(3,021)	1,377	(1,644)	0
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru nad oes eu hangen gan yr Adrannau</i>				(422)	(422)	
<u>Cyfanswm Addasedig Corfforaethol</u>					(2,066)	

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - yn wyneb yr argyfwng Covid19 ac felly i osgoi caledi ariannol posib, cafodd pob gweithred adennill ar filiau Treth Cyngor heb eu talu eu hatal am gyfnod o 3 mis tan ddechrau Gorffennaf, ar hyn o bryd felly rhagwelwn sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£441k) ar Dreth Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynllunio i dderbyn £2.7m o Bremiwm Treth y Cyngor yn ystod 2020/21 sydd i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

Gostyngiadau Treth Cyngor - rhagwelir tanwariant o (£297k) yn dilyn tueddiad o ostyngiad blynyddol yn niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (Budd-daliadau) dros y bedair blynedd ddiwethaf, gyda ffigyrau 2019/20 ar eu lefelau isaf ar hyd cynghorau gogledd a chanolbarth Cymru, yn dilyn yr argyfwng Covid19, bu cynnydd o 4% yn niferoedd chwarter cyntaf 2020/21 yng Ngwynedd.

Costau Cyfalaf - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i'r gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf

Derbyniad Llog - yn dilyn ardrawiad Covid19 ar y marchnadoedd arian, rhagwelir leihad yn y derbyniad llog disgwylidig.

Darpariaeth Gwireddu Arbedion Corfforaethol - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwmpas sydd ar gael i'w ddyrannu'n briodol.

Eraill gan gynnwys Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau - dychwelyd rhan o fid yn dilyn derbyniad grant, arbedion un-tro corfforaethol eu natur a phwysau ar draws nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario eleni.

Argymhellir fod (£250k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda'r gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,127k) yn mynd i falansau'r Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.